Adroddiad i'r	**Pwyllgor Craffu Perfformiad**
Dyddiad y cyfarfod	**16 Mawrth 2023**
Aelod/Swyddog Arweiniol	**Cynghorydd Rhys Thomas - Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau**
Pennaeth Gwasanaeth	**Liz Grieve - Pennaeth Cymunedau a Gwasanaethau Cwsmeriaid**
Awdur yr adroddiad	**Geoff Davies, Swyddog Arweiniol – Tai Cymunedol**
Teitl	**Llwydni ac Anwedd yn Stoc Tai Cyngor Sir Ddinbych**

Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Ar 15 Tachwedd 2022 rhyddhawyd adroddiad y crwner yn dilyn marwolaeth drasig Awaab Ishak, 8 oed, yn Rochdale

1.2. Daeth yr adroddiad i'r casgliad fod Awaab wedi marw o gysylltiad hirdymor â llwydni yn fflat cymdeithas dai y teulu. Dywedodd y crwner y dylai hyn fod yn "drobwynt" ar gyfer y sector tai.

1.3. Yn dilyn hyn bu i Lywodraeth Cymru ysgrifennu at bob landlord cymdeithasol yng Nghymru (sef Cynghorau sydd â stoc dai a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig), ar 15 Rhagfyr 2022 yn gofyn am sicrwydd ar sut mae landlordiaid yn ymateb i'r achos. Roedd angen ymateb erbyn 20 Ionawr 2023.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Gofynnodd Llywodraeth Cymru am adborth gan sefydliadau ynghylch sut y byddant yn craffu'r mater hwn o fewn eu strwythurau llywodraethu eu hunain. Hefyd, mae'n hanfodol fod y Gwasanaethau Tai ac Eiddo yn cael eu craffu yn llawn ar y mater hwn i sicrhau ein bod yn cefnogi aelwydydd mewn cartrefi cyngor i atal llwydni ac anwedd.

2.2. Gofyn am sylwadau aelodau ar y camau a gymerwyd gan y Cyngor i ddelio â llwydni ac anwedd yn ei stoc dai.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn ystyried:

3.1. yr wybodaeth a ddarparwyd ac yn rhoi sylwadau yn unol â hynny;

3.2. a yw'n fodlon fod systemau a phrosesau'r Cyngor yn gadarn ac yn briodol i sicrhau fod problemau lleithder a llwydni yn cael eu trin yn sydyn ac yn effeithiol; a

3.3. a oes angen monitro'r systemau a phrosesau yn y dyfodol.

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Yn dilyn sylw yn y cyfryngau yn genedlaethol am farwolaeth drasig Awaab Ishak, yn ddealladwy bu canolbwynt ar lwydni ac anwedd mewn tai cymdeithasol.

4.2. Mae achosion llwydni ac anwedd yn gymhleth. Mewn nifer o achosion nid yw gweld llwydni ac anwedd yn golygu fod nam ar yr adeilad y gellir ei drwsio, fodd bynnag gall perfformiad ynni'r adeilad effeithio ar hyn yn ogystal â sut y rheolir gwres ac awyru yn y cartref.

4.3. Daeth y sylw cynyddol hwn ar lwydni ac anwedd ar amser o brisiau yn cynyddu pan fo gwres digonol yn hanfodol i sicrhau y cynhelir tymheredd cyson a chymedrol o fewn y cartref.

4.4. Mae'r adroddiad i Lywodraeth Cymru yn atodiad 1 yn amlinellu ein hymateb i adroddiadau o lwydni ac anwedd gan ein tenantiaid. Mae'r adroddiad hwn yn egluro'n llawn sut rydym yn cefnogi aelwydydd ac felly'n briodol ar gyfer craffu mewnol pellach. Diweddarwyd yr adroddiad i sicrhau fod yr holl ddata yn gyfredol hyd at ddiwedd Chwefror 2023.

4.5. Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am ein hymateb i adroddiadau o lwydni, lleithder neu anwedd a gwaith parhaus i godi ymwybyddiaeth o atal anwedd a rheoli lleithder yn y cartref.

4.6. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys data gwybodaeth ar nifer yr achosion o leithder a nodwyd gan gwsmeriaid, cwynion a hawliadau atgyweirio. Gallwn roi sicrwydd fod adroddiadau am lwydni ac anwedd yn gymharol isel mewn perthynas â chyfanswm y ceisiadau am waith atgyweirio.

4.7. Rydym hefyd wedi cynnal gwaith wedi ei dargedu i gefnogi ein tenantiaid gyda'r argyfwng costau byw a'r risg ychwanegol mae hyn yn ei achosi ar gyfer yr amodau sy'n achosi llwydni ac anwedd.

4.8. Yn ogystal â'r prif adroddiad, rydym wedi cynnwys nifer o atodiadau sy'n dangos y wybodaeth rydym wedi ei darparu yn rheolaidd i gefnogi aelwydydd.

4.9. Prawf effeithiolrwydd ein hymateb fydd yr effaith mae hyn yn ei gael ar aelwydydd sydd wedi dweud wrthym ynglŷn â llwydni a / neu anwedd. Pan fydd tymor cynhesach y gwanwyn yn cyrraedd, rydym yn bwriadu cysylltu â phob aelwyd sydd wedi dweud ynglŷn â phroblem gyda lleithder, llwydni neu anwedd yn ystod yr hydref a'r gaeaf hwn a gofyn am adborth ar effeithiolrwydd y cyngor a roddwyd, unrhyw gefnogaeth ychwanegol a gynigiwyd a chadarnhau fod y broblem wedi ei datrys.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Themâu Corfforaethol?

5.1. Mae Tai yn Flaenoriaeth Gorfforaethol i "Sicrhau bod digon o dai o ansawdd da ar gael, gan ddiwallu anghenion holl breswylwyr Sir Ddinbych". Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu ein hagwedd i sicrhau fod cartrefi yn "ddiogel ac wedi eu cynnal yn dda".

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Costau cefnogi tenantiaid y cyngor yn eu cartrefi a sicrhau fod eu cartrefi yn cael eu cynnal yn dda ac ar y Cyfrif Refeniw Tai (CRT).

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Ni chwblhawyd asesiad o effaith ar les gan nad oes ei angen ar gyfer cynnig neu newid mewn polisi.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae'r mater hwn wedi ei hunan atgyfeirio at y Pwyllgor Craffu Perfformiad i geisio her ar ein gwaith ac i roi sicrwydd ein bod yn ymateb yn effeithiol i'r materion pwysig hyn.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Gallai'r risg o beidio ag ymateb yn effeithiol i adroddiadau gan denantiaid am lwydni ac anwedd arwain at broblemau iechyd ymysg aelwydydd mewn cartrefi'r cyngor a hefyd y posibilrwydd o ddifrod i enw da'r cyngor.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000.

11.2. Adran 7 Cyfansoddiad y Cyngor